

Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Pencadlys yr Heddlu

01 Mai 2019

COFNODION

Yn bresennol

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

- | | |
|--------------------------------------|---|
| • Lee Jones – Dirprwy Gadeirydd (LJ) | Pennaeth Staff (Dros Dro) |
| • Sarah Mahon (SM) | Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd |
| • Jayne Powney (JP) | Swyddog Ansawdd y Gwasanaeth |
| • Jackie Trow (JT) | Rheolwr Ansawdd y Gwasanaeth |
| • Emma Wools – Cadeirydd (EW) | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu |

Heddlu De Cymru

- Mark Brier (MB) – Prif Arolygydd (Arweinydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol)
- Richard Lewis (RL) – Dirprwy Brif Gwnstabl
- Caroline Smart (CS) – Gwasanaethau Corfforaethol
- Jeremy Vaughan (JV) – Prif Gwnstabl Cynorthwyol
- John Wainwright (JW) – Prif Arolygydd (Arweinydd Troseddau Casineb)
- Carol Woodward (CW) – Gwasanaethau Corfforaethol

Ymddiheuriadau

Hannah Jenkins-Jones – Arweinydd Craffu a Sicrwydd (Tîm y Comisiynydd)

Emma Wools (Cadeirydd)

1. Croeso a Chyflwyniadau

1.1 Croesawodd Emma Wools (EW) y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Bwrdd newydd, gan nodi mai'r bwriad oedd iddo fod yn llwyfan ar gyfer craffu a oedd yn rhoi gwerth ychwanegol i fentrau'r heddlu. Y prif ddiben oedd goruchwyllo'r broses o gyflawni Cynllun Heddlu a Throseddu y Comisiynydd a Chynllun Cyflawni cysylltiedig y Prif Gwnstabl. Y gobaith oedd y byddai'n cynnig cyfleoedd i greu syniadau newydd ac yn darparu her gefnogol o ran perfformiad a ffyrdd o feddwl.

2. Trefniadau Llywodraethu

2.1 Atgoffodd LJ y rhai a oedd yn bresennol am ddyletswyddau statudol y Comisiynydd o ran craffu, a phwysleisiodd mai dyna fu'r prif reswm dros gynnal yr adolygiad o drefniadau

llywodraethu a chyflwyno'r Bwrdd newydd. Atgoffodd y rhai a oedd yn bresennol am y Cylch Gorchwyl a'r rhaglen graffu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

- 2.2 Byddai'r Bwrdd Craffu yn cynnal cyfarfodydd at wraidd y mater a fyddai'n canolbwyntio ar y rhaglen graffu, a chyfarfodydd uwchgyfeirio a fyddai'n ystyried materion gan fyrddau eraill a materion o ddiddordeb a oedd yn dod i'r amlwg, a hynny am yn ail. Nodwyd y gallai amllder y cyfarfodydd newydd fod yn feichus, a bod awydd cyffredin i sicrhau nid safon, nid nifer. Cytunwyd y dylid cadw at yr amserlen cyfarfodydd y cytunwyd arni, a'i hadolygu yn ôl yr angen.

3. Pwnc At Wraidd y Mater – Troseddau Casineb

- 3.1 Cyflwynodd LJ y pwnc cyntaf i graffu arno, sef troseddau casineb. Dyma fyddai prif ffocws at wraidd y mater y cyfarfod.
- 3.2 Cyfeiriodd LJ at y ddogfen gwmpasu, a oedd yn amlinellu'r meysydd i'w hystyried a'r cysylltiadau â'r ymrwymadau o ran troseddau casineb yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu.

4. Troseddau Casineb – Adroddiad yr Heddlu

- 4.1 Pwysleisiodd JV fod troseddau casineb yn flaenoriaeth i Heddlu De Cymru a chydnabuwyd eu bod yn effeithio ar nifer o faterion plismona eraill, gan gynnwys gweithio tuag at weithlu cynrychioliadol, ymgysylltu â chymunedau a thensiynau cymunedol. Rhoddodd sicrwydd i'r rhai a oedd yn bresennol fod hyn yn destun llawer o waith craffu mewnol gan yr heddlu.
- 4.2 Roedd yr adran Llywodraethu Corfforaethol wedi cynnal adolygiad ac arolygiad o wasanaethau troseddau casineb ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i ymgorffori'r canfyddiadau ym mhob rhan o'r heddlu. Gofynnodd Tîm y Comisiynydd am gopi o'r adolygiad hwn a chytunwyd y byddai'n cael ei anfon ato.
- 4.3 Estynnwyd gwahoddiad i JW ddod i gyflwyno adroddiad yr heddlu. Eglurodd fod y polisi a gweithdrefn troseddau casineb yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a bod data ar droseddau casineb yn destun gwaith craffu ac adolygu mewnol bob chwarter. Yn gyffredinol, teimlai fod canlyniadau troseddau casineb yn cymharu'n dda â chanlyniadau cyffredinol yr heddlu, a'u bod yn gwella.
- 4.4 Rhoddodd JV rywfaint o gyd-destun i'r bwrdd ynghylch canlyniadau cadarnhaol o safbwynt data, gan bwysleisio na ddylid drysu rhyngddynt a phrofiad cadarnhaol. Cytunodd fod boddhad dioddefwyr troseddau casineb yn cymharu'n dda â mathau eraill o droseddau ar draws yr heddlu, ond dywedodd y bu'n anodd ceisio cau'r bwll rhwng boddhad dioddefwyr gwyn a dioddefwyr duon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd yr heddlu yn ymdrechu i wella hyn.
- 4.5 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phwyntiau cyswllt pan fyddai dioddefwyr a thystion yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau casineb, yn enwedig o ran staff y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd yn ateb galwadau. Cadarnhaodd JW fod staff y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael hyfforddiant penodol ar droseddau casineb a'i fod yn gyfforddus â lefel y wybodaeth am droseddau casineb sy'n bodoli ymhlith staff y

Ganolfan. Cynigiodd RL i staff y Comisiynydd ymweld â'r Ganolfan i gadarnhau safbwyntiau ar hyn.

- 4.6 Amlinellodd JW y wybodaeth am hyfforddiant ar droseddau casineb a roddwyd yn yr adroddiad, gan gydnabod bod y pecyn hyfforddiant wedi dyddio. Gan fod yr Arolygiaeth wedi gofyn i'r Swyddfa Gartref ddatblygu hyfforddiant cenedlaethol ar droseddau casineb ar gyfer heddluoedd, roedd unrhyw adolygiad o hyfforddiant ar droseddau casineb wedi'i oedi ar hyn o bryd. Roedd JW wedi gweld fersiwn ddrafft o'r hyfforddiant nwydd arfaethedig a baratowyd gan y Swyddfa Gartref, a theimlai ei fod yn gadarnhaol er nad oedd wedi'i gymeradwyo eto. Cadarnhawyd na fyddai'r hyfforddiant newydd yn orfodol ond y byddai'r heddlu yn ystyried opsiynau cyflwyno yn erbyn blaenoriaethau eraill o ran hyfforddiant.
- 4.7 Tynnodd JW sylw'r bwrdd at faterion pellach yn ymwneud â throseddau casineb, yn enwedig yr heriau sy'n gysylltiedig â throseddau casineb ar-lein, yr heriau sydd i ddod yn sgil Brexit a'r heriau sy'n gysylltiedig â throseddau casineb ym myd pêl-droed. Er y bu enghreifftiau dychrynlyd o hiliaeth ym myd pêl-droed yn genedlaethol, ni theimlwyd bod yr un ohonynt yn gysylltiedig â Chymru. Fodd bynnag, roedd JW yn gweithio gyda'r Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU) i sicrhau nad oedd unrhyw fater sylfaenol nad oedd yr heddlu yn ymwybodol ohono.

CAMAU GWEITHREDU:

[Anfon dogfen Adolygu Troseddau Casineb yr adran Llywodraethu Corfforaethol ymlaen i Dîm y Comisiynydd](#)

[Estyn gwahoddiad i Dîm y Comisiynydd ymweld â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried y gwasanaethau troseddau casineb a ddarperir.](#)

5. Troseddau Casineb – Adroddiad Tîm y Comisiynydd

- 5.1 Rhoddodd LJ drosolwg i'r cyfarfod o adroddiad tîm y Comisiynydd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am droseddau casineb a gasglwyd gan y tîm yn ystod y cyfnod ymchwil at wraidd y mater ac roedd yn cynnwys adborth gan droseddwyr, adborth gan bartneriaid, safbwyntiau swyddogion troseddau casineb mewnol a gwybodaeth am gwynion ynghylch troseddau casineb.
- 5.2 Nodwyd lle roedd dioddefwyr wedi teimlo unrhyw anfodlonrwydd â Heddlu De Cymru wrth roi gwybod am ddigwyddiad casineb, fod cyswllt yn aml â diffyg cyswllt dilynol a diweddariadau. Roedd yn glir bod hyn yn effeithio ar brofiadau, hyd yn oed lle roedd y profiadau cyffredinol yn gadarnhaol.
- 5.3 Nodwyd bod pobl anabl wedi rhoi gwybod am nifer o achosion o gam-drin ar-lein neu gam-drin ar y stryd a oedd yn gysylltiedig â'u hanabledd, ac nad oedd swyddogion bob amser yn dangos dealltwriaeth o'u hanghenion wrth ymateb i'r achosion hynny. Weithiau, dywedwyd wrth dioddefwyr am beidio â defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol neu beidio ag ymweld ag ardaloedd penodol. Roedd yn debygol bod y llwyfannau ar-lein neu leoliadau hyn yn gymorth cymdeithasol sylweddol i bobl anabl a oedd yn eu hatal rhag teimlo wedi'u hynysu.

- 5.4 Roedd canfyddiad hefyd ymhlith rhai dioddefwyr a phartneriaid fod swyddogion o bosibl yn canolbwyntio gormod ar 'fathau o droseddau' wrth roi gwybod am ddigwyddiadau casineb, yn hytrach nag ystyried effaith y digwyddiad a natur agored i niwed yr unigolyn dan sylw. Er enghraifft, teimlwyd bod delio â 'cham-drin ar-lein' yn cael ei ystyried yn anghyfleustra, pan y gallai, mewn gwirionedd, fod effaith anghymesur ar ddiodefwyr troseddau casineb a oedd yn dioddef achosion o gam-drin ar-lein wedi'u cymell gan gasineb.
- 5.5 Yn yr un modd, roedd grwpiau ffocws wedi tynnu sylw at y ffaith bod achosion yn gwaethgu'n sylweddol cyn i rywun benderfynu rhoi gwybod am ddigwyddiad casineb yn y pen draw. Roedd angen i swyddogion fod yn ystyriol o'r posibilrwydd mai dim ond crafu'r wyneb oedd y digwyddiad y rhoddwyd gwybod amdano neu y gallai fod yn rhan o batrwm hanesyddol o fictimeiddio. Roedd hyn wedi dod i'r amlwg hefyd wrth ddadansoddi cwynion yn gysylltiedig â throseddau.
- 5.6 Nodwyd bod y gallu i ddefnyddio llwyfannau gwahanol i roi gwybod am ddigwyddiadau casineb yn bwysig i ddiodefwyr. Er enghraifft, nododd diodefwyr trawsryweddol fod yn well ganddynt opsiynau ar-lein ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau casineb, fel True Vision, rhag ofn i'w rhyw gael ei gam-bennu dros y ffôn. Roedd yn well gan ddiodefwyr eraill gael cymorth wyneb yn wyneb i lenwi ffurflenni adrodd oherwydd anghenion o ran llythrennedd ac anabledd.
- 5.7 Teimlai nifer o ddiodefwyr fod angen ffocws o'r newydd ar hyfforddiant ar droseddau casineb a hyfforddiant ar nodweddion gwarchoddedig i swyddogion. Nodwyd y bu mwy o ymgysylltu gan rai swyddogion mewn blynyddoedd blaenorol nag ar hyn o bryd, a'i bod yn ymddangos bod llai o ddealltwriaeth o grwpiau amrywiaeth gwahanol mewn rhai achosion.
- 5.8 Cyfeiriodd nifer o ddiodefwyr at y cymorth cadarnhaol roeddent wedi ei gael gan Swyddogion Troseddau Casineb a'u heffaith gadarnhaol ar eu profiad. Fodd bynnag, teimlwyd ei bod yn hollbwysig sicrhau bod lefel o barhad yn y rolau arbenigol hyn er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder gwirioneddol. Gallai symud swyddogion o gwmpas neu benodi pobl i'r rolau nad oeddent yn wirioneddol ymgymryd â nhw gael effaith negyddol ar ymddiriedaeth y gymuned a nifer yr achosion o droseddau casineb y rhoddwyd gwybod amdanynt. Roedd rhai Swyddogion Troseddau Casineb eu hunain yn rhannu'r farn hon i ryw raddau.
- 5.9 Roedd nifer o ddiodefwyr wedi cyfeirio at eu profiad cadarnhaol o'r system cyfiawnder adferol ar gyfer digwyddiadau casineb. Roedd rhai ymholiadau wedi dod i law ynglŷn â sut y gellid hyrwyddo hyn ymhellach.
- 5.10 Nodwyd bod diodefwyr ac asiantaethau partner, gan gynnwys aelodau o Grŵp Atebolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PALG), yn teimlo ei bod yn bwysig gallu dadansoddi troseddau casineb fesul categori er mwyn meithrin dealltwriaeth well o lefelau troseddau casineb o fewn grwpiau, e.e. dadansoddi fesul grŵp hil a math o anabledd, ac ati. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â chywirdeb y ffordd yr oedd swyddogion a staff yn cofnodi troseddau casineb gan ddefnyddio'r pum categori presennol, ynghyd â gwerthfawrogiad o bwysigrwydd hyfforddiant parhaus.

- 5.11 Nodwyd nad oedd Swyddogion Troseddau Casineb bob amser yn cael cyfleoedd i ddod i wybod am densiynau cymunedol a phroblemau casineb mewn ardaloedd eraill o'r heddlu. Roeddent yn aml yn dibynnu ar straeon newyddion ar-lein er mwyn cael gwybod am yr hyn a oedd yn digwydd mewn ardaloedd eraill o'r heddlu ond roeddent yn teimlo y gallai fod yn fuddiol i'r wybodaeth hon gael ei rhannu fel mater o drefn. Ystyriwyd bod cyfarfodydd chwarterol y Swyddogion Troseddau Casineb yn werthfawr, er nad oeddent bob amser yn cael eu trefnu. Teimlwyd y byddai'n werth datblygu'r cyfarfodydd hyn ymhellach i gynnwys mwy o gyfleoedd i rannu gwybodaeth a mwy o gysondeb.
- 5.12 Roedd dioddefwyr a phartneriaid wedi nodi'r gwerth y byddent yn ei roi ar ddarllen straeon cadarnhaol am roi gwybod am droseddau casineb a/neu ganlyniadau erlyniadau. Teimlwyd y byddai hyn yn annheg eraill i godi eu llais.

6. Troseddau Casineb – Sylwadau a Chasgliadau

- 6.1 Amlinellodd SM rywfaint o'r adborth a gafwyd gan ddiodefwyr a phartneriaid a oedd yn nodi lle roedd rhwystrau i roi gwybod am droseddau casineb. Weithiau roedd yr adborth yn dangos bod angen i negeseuon a chyfathrebu gan yr heddlu fod yn fwy clir am y cymorth a oedd ar gael gan yr heddlu i ddiodefwyr a chyhoeddi canlyniadau ac astudiaethau achos cadarnhaol. Roedd yn amlwg bod diodefwyr troseddau casineb yn aml wedi bod yn diodef am wythnosau neu fisoedd cyn penderfynu cysylltu â'r heddlu. Hefyd, roedd gan ddiodefwyr mewn ardaloedd gwledig brofiadau gwahanol i'r rhai mewn ardaloedd mwy trefol, gyda mwy o deimladau ynysig a llai o ymyriadau gan yr heddlu mewn perthynas â throseddau casineb mewn ardaloedd gwledig. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol ailedrych ar rai o'r ymgyrchoedd cyfathrebu ar y cyd â Thîm y Comisiynydd.
- 6.2 Yn yr un modd, roedd yn bwysig cynnig amrywiaeth o opsiynau ar gyfer rhoi gwybod am droseddau casineb a fyddai'n addas i anghenion gwahanol, a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt.
- 6.3 Roedd yn ymddangos bod hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yn bwysig i'r cyhoedd a phartneriaid. Mewn ymateb i ymholiadau gan Dîm y Comisiynydd, cadarnhaodd JW nad yw Swyddogion Troseddau Casineb yn cael hyfforddiant ychwanegol nac arbenigol. Awgrymodd Tîm y Comisiynydd y gallai'r adnodd hyfforddi ar-lein newydd gael ei gyflwyno i aelodau PALG er mwyn iddynt roi sylwadau arno. Cytunwyd bod hyn yn awgrym defnyddiol a fyddai'n galluogi beirniadaeth allanol. Argymhellwyd y dylai Swyddogion Troseddau Casineb gael cynifer o gyfleoedd â phosibl i rannu gwybodaeth er mwyn darparu gwasanaeth cadarnhaol a chyson.
- 6.4 Gofynnodd EW am ragor o wybodaeth am broffil problemau troseddau casineb ledled De Cymru. Roedd am gael gwybod a allem feithrin dealltwriaeth well o broblemau diodefwyr a throseddwr yn ardal De Cymru. Cadarnhaodd JV nad oedd y lefel hon o fanylder ar gael ar hyn o bryd ond cytunodd i ystyried sut y gallai'r wybodaeth hon gael ei hystyried.
- 6.5 Gofynnodd EW hefyd am wybodaeth am ddata ar ddiodefwyr mynych a throseddwr mynych. Byddai'r data hyn yn dangos lefel y cymorth a roddwyd i ddiodefwyr ac yn dangos faint o ymdrech a oedd yn cael ei gwneud i atal troseddau casineb. Cadarnhaodd JV y byddai'r data hyn ar gael ac yn cael eu rhannu.
- 6.6 Cafwyd ymholiadau pellach am allu'r heddlu i gofnodi is-gategoriâu o droseddau casineb er mwyn cael darlun mwy cyfoethog o nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt, e.e.

crefyddau a dargedir neu fathau o anabledd sy'n llai tebygol o roi gwybod am droseddau casineb. Teimlai RL y byddai llwyddiant is-gategoriâu yn dibynnu ar ddealltwriaeth swyddogion er bod modd dadansoddi yn ôl crefyddau. Awgrymwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei ailystyried.

6.7 Cytunodd JV fod angen ystyried y sylwadau a phenderfynu sut i fynd ar drywydd y materion. Cadarnhaodd EW y byddai'r canlyniadau'n cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Craffu er mwyn penderfynu ar y camau nesaf.

CAMAU GWEITHREDU:

Yr adran Datblygu Corfforaethol i ystyried datblygu proffil problemau troseddau casineb ar gyfer De Cymru (gan gynnwys tueddiadau o ran dioddefwyr a throeddwyd).

Yr adran Datblygu Corfforaethol i gyflwyno data ar ddiodefwyr troseddau casineb mynych a throeddwyd mynych i Dîm y Comisiynydd.

Tîm y Comisiynydd i lunio crynodeb o'r argymhellion sy'n deillio o'r trafodaethau ar droseddau casineb.

7. Pwnc At Wraidd y Mater – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

7.1 Cyflwynodd EW yr ail bwnc craffu, sef mentrau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a chyfeiriodd y Bwrdd at y ddogfen gwmpasu a oedd yn amlinellu cysylltiadau â Chynllun yr Heddlu a Throseddu. Penderfynwyd y byddai'r eitem ar yr agenda yn ymwneud â chanlyniadau troseddau yn cael ei throsglwyddo i gyfarfod yn y dyfodol oherwydd pwysau amser.

7.2 Rhoddodd MB drosolwg i'r Bwrdd o fentrau presennol i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a nododd y cysylltiadau â'r Adolygiad o Blismona yn y Gymdogaeth ledled ardal yr heddlu. Tynnodd MB sylw at rai meysydd i'w gwella o ran glynu wrth brosesau mewn rhai o'r mentrau cymunedol ac amlinellodd rai mentrau partneriaeth a oedd ar waith, gan gynnwys y rhai hynny â'r sector Tai a gwaith ataliol gydag ysgolion.

7.3 Trafodwyd y rhwymedi cymunedol ac i ba raddau yr oedd y cyhoedd yn ei ddeall. Cytunwyd bod angen ailganolbwyntio ymdrechion ar y cyd ar sut beth y dylai'r rhwymedi hwn fod yn y dyfodol. Yn yr un modd, roedd angen rhywfaint o waith ailfrandio a ffocws ar y cyd mewn perthynas â'r sbardun cymunedol.

7.4 Cyfeiriodd MB at y ffigurau ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn awgrymu tuedd ar i lawr o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd her o hyd mewn perthynas â nifer yr achosion nad oedd pobl yn rhoi gwybod amdanynt, a theimlwyd y dylid parhau i fynd i'r afael â hyn ar y cyd.

7.5 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r system rheoli TG mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws awdurdodau. Roedd y system a oedd yn cael ei defnyddio yn hen ac yn cyflwyno rhai heriau, ac roedd angen ei diweddarau.

8. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Sylwadau a Chasgliadau

8.1 Diolchodd EW i gynrychiolwyr yr heddlu am y trosolwg a chydabu y byddai angen cytuno ar ddarnau o waith ar y cyd i fynd ar eu trywydd ym maes ymddygiad gwrthgymdeithasol.

8.2 Holodd EW ynglŷn â'r problemau yn ymwneud â'r system TG a gofynnodd am sicrwydd o ran sut roedd y rhain yn cael eu datrys. Cadarnhaodd MB y byddai diddymu'r system bresennol ar hyn o bryd yn peri problem ond bod sgysiau'n mynd rhagddynt am opsiynau amgen a oedd yn addas at y diben neu ffyrdd o wella'r system bresennol.

8.3 Holodd EW ynglŷn â chanfyddiad y cyhoedd a boddhad dioddefwyr mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofynnodd a oedd yr heddlu'n ceisio'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Cadarnhaodd CW fod adnoddau'n cael eu neilltuo i ddatblygu model newydd ar gyfer gwneud hyn.

8.4 Gofynnodd SM a fyddai anghenion dioddefwyr yn cael eu hystyried wrth gynnal arolygon boddhad, er enghraifft drwy ddarparu ffurflenni a fersiynau hawdd eu darllen. Cadarnhaodd CW mai ar ba gwestiynau yr oedd angen eu gofyn er mwyn cael y wybodaeth orau y bu'r ffocws, ond y byddai hyn yn cael ei ystyried.

CAMAU GWEITHREDU:

Tîm y Comisiynydd i ddatblygu crynodeb o'r casgliadau mewn perthynas â'r camau nesaf o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig lle y bydd cydweithio yn fuddiol.

Yr adran Datblygu Corfforaethol i ystyried anghenion cyfathrebu dioddefwyr wrth ddatblygu'r opsiynau ar gyfer arolygon boddhad dioddefwyr newydd.

9. Sylwadau Cau

9.1 Diolchodd EW i bawb am eu cyfraniad a'u cydweithrediad yn y cyfarfod cyntaf. Amlinellodd mai'r camau nesaf fyddai nodi, cadarnhau a monitro argymhellion terfynol pwrpasol, y byddai Tîm y Comisiynydd yn eu dwyn ynghyd.

TABL CAMAU GWEITHREDU

Rhif y Cam Gweithredu	Cam Gweithredu	Dyddiad diweddarau neu gwblhau
1	Anfon y ddogfen Adolygu Troseddau Casineb ymlaen i Dîm y Comisiynydd	4 Mehefin 2019
2	Estyn gwahoddiad i Dîm y Comisiynydd ymweld â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus i arsylwi ar y gwasanaethau troseddau casineb a ddarperir	4 Mehefin 2019
3	Yr adran Datblygu Corfforaethol i ystyried datblygu proffil problemau troseddau casineb	4 Mehefin 2019
4	Yr adran Datblygu Corfforaethol i gyflwyno data ar ddiodefwyr troseddau casineb mynych a throseddwr mynych i Dîm y Comisiynydd	4 Mehefin 2019

5	Yr adran Datblygu Corfforaethol i ystyried anghenion cyfathrebu wrth ddatblygu cynigion ar gyfer arolygon boddhad dioddefwyr	4 Mehefin 2019
6	Tîm y Comisiynydd i ddatblygu crynodeb o'r casgliadau/argymhellion ar gyfer troseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol	4 Mehefin 2019